# Pectopexy rhwyll laparoscopig ar gyfer llithriad apigol y groth neu'r fagina

14 Mawrth 2018

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir gwneud y driniaeth hon. Mae hyn am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Mae llithriad apigol yn digwydd pan fydd y groth (wterws), serfics neu gromen y fagina yn llithro i lawr o'i safle arferol. Defnyddir y term 'cromen' i ddisgrifio pen y fagina ar ôl hysterectomi, pan mae'r serfics a'r groth wedi cael eu tynnu. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys mewnosod rhwyll y tu mewn i'r abdomen gan ddefnyddio ychydig o doriadau bach (llawdriniaeth twll clo). Cysylltir pob pen y rhwyll â ligament ar naill ochr y pelfis. Mae'n gweithredu fel sling i gefnogi'r wterws neu ben y fagina.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2866-8

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights